



Regeneration Policy Team
2nd Floor
Welsh Government
Cathays Park
Cardiff
CF10 3NQ

7 January 2013

Dear Sir/Madam

Consultation document: Vibrant and Viable Places, New Regeneration Framework

The Welsh Language Commissioner welcomes the opportunity to comment on this consultation document.

The principal aim of the Commissioner is to promote and facilitate the use of the Welsh language. This entails raising awareness of the official status of the Welsh language in Wales and imposing standards on organizations. This, in turn, will lead to the establishment of rights for Welsh speakers.

Two principles underpin the Commissioner's work:

- In Wales, the Welsh language should be treated no less favourably than the English language
- Persons in Wales should be able to live their lives through the medium of the Welsh language if they choose to do so.

In due course, secondary legislation will introduce new powers allowing the setting and imposing of standards on organizations including Local Authorities. Until then, the Commissioner will continue to inspect statutory language schemes through the powers inherited under the Welsh Language Act 1993.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygybraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygybraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org

One of the Commissioner's priorities is to scrutinize policy developments in terms of the Welsh language. Therefore the Commissioner's main role is to provide comments in accordance with this remit and to act as an independent advocate on behalf of Welsh speakers in Wales who could be affected by this consultation. This approach is used to avoid any possible compromise of the Commissioner's functions in the area of regulation, and should the Commissioner wish to formally review the performance of individual bodies or the Welsh Government in accordance with the provisions of the Measure.

Turning to the consultation in question, it is not clear why no reference at all is made to the Welsh language in the document, save for one reference in discussing skills. *'A Living Language: A Language for Living'* (Welsh Language Strategy 2012-17) notes that the Welsh Government's vision is that the Welsh language should flourish in Wales. As one of the Government's approaches in order to realise this vision, the following was noted:

'In addition, the Welsh Government will further mainstream the language into service and policy development while ensuring that Ministers and officials consider the links between their portfolios and the language. To this end, the Welsh Government's policy process requires the impact of new policies and services on the Welsh language to be assessed, including strategic policy activities' (page 21)

In Section 3.2 of the *'new regeneration framework'* we see a list of the current programmes based on areas which have implications in terms of regeneration. We are of the opinion that the Welsh language is relevant to all bullet points on the list. We request that you consider carefully in planning for the future of the programmes noted. A summary of our comments is given below:

- *Communities First* - as the new clusters are agreed there will be a need to consider how they will dovetail with the Welsh speaking communities in Wales where the Welsh language is under threat as the traditional language of the area. Whether they dovetail or not it will be necessary to ensure that the Welsh language is considered in accordance with the relevant language schemes of the partners and then in accordance with the standards in respect of the Welsh language, when they become law.
- *The Structural Funds* - the Commissioner's advice document on Grants, loans and sponsorship notes the need to ensure consideration is given to the effect on the Welsh language in awarding grants, and ensuring appropriate use of the language in any activity funded. WEFO will need to ensure full consideration for the Welsh language in agreeing new projects.
- *Strong and Sustainable Communities* - the Welsh Government's Welsh Language Strategy includes 6 strategic areas. Strategic area 3 is *'The Community'*. The undertakings made in this strategic area dovetail with what was noted under the

Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

bullet point '*strong and sustainable communities*'. The pilot scheme in the Aman Tawe area to promote the Welsh language is highly relevant.

The Rural Development Plan - although the highest numbers of Welsh speakers live in our cities, the communities where over 70 per cent of the population speak Welsh are predominantly rural areas. I would like to emphasise the importance of ensuring that any rural development plans reflect the principles noted in 'A Living language: a language for living'.

Flying Start - we believe that the Welsh Government's '*Twf*' scheme, which aims to encourage parents to introduce the Welsh language to their children from the cradle, is relevant to the Flying Start scheme. We urge you to consider the objectives of this project unless you have already done so.

Regeneration led by housing - the provision of new housing can have complex effects on communities. It can contribute towards community well-being if managed carefully, but disproportionate development can be detrimental to the sustainability of communities and Welsh-speaking communities specifically. The Government is currently in the process of amending Technical Advice Note 20 with the aim of providing more definite guidelines for local authorities regarding how the Welsh language should be considered in preparing Local Development Plans.

It is not clear whether the Welsh language forms part of the proposed outcomes in section 4.3 or not. The Welsh language is part of the social fabric in Wales and it would certainly be a valid consideration in a large number of areas when developing prosperous communities, learning communities, and healthier communities.

In Section 5 you note the key principles for your work, namely '*Partnership, Strategy and Sustainability*'. We note with disappointment that there is no reference to the Welsh Government's Welsh Language Strategy in this section. In 5.1 matters such as equality and sustainability are considered under "key principles". Once again the Welsh language is absent and we believe this is inconsistent with the Government's wider vision. For example, the Government's "Shared Purpose - Shared Delivery" document which provides advice on community planning refers to the Welsh language (as well as equality and sustainability) as a principle which is a basis for integrated planning work.

Section 6 includes references to the private sector and the third sector. '*A living language: a language for living*' includes a clear reference to the importance of these sectors in encouraging the Welsh language to flourish in all sections of life in Wales. Therefore we encourage you to consider the commitments made in your strategy for the Welsh language.


The community benefits of procurement were noted in Section 6. The Value Wales team has already welcomed the guidelines on procurement and contracting produced by the Welsh Language Board. The Welsh Language Commissioner will be

publishing a code of practice on contracting out public service contracts to be brought in at the same time as the Standards in respect of the Welsh language.

Finally, we believe that the initial results of the 2011 Census that were published recently manifest the need to consider the Welsh language in regeneration, economic and housing policies. It appears to us from the proposals in the consultation document that little consideration has been given to the Welsh language in the proposed regeneration framework so far. We have grave doubts about the relationship that exists between the framework as it stands and the Government's language strategy and the vision in a wider sense.

Thank you for the opportunity to respond to the consultation. I would welcome the opportunity to discuss my comments further.

Yours faithfully

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Meri Huws', written in a cursive style.

Meri Huws

Welsh Language Commissioner



Tîm Polisi Adfywio
2^{il} Llawr
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

07 Ionawr 2013

Annwyl Syr/Madam

Dogfen ymgynghori: Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, Fframwaith Adfywio Newydd

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn croesawu'r cyfle i gynnig sylwadau ar y ddogfen ymgynghori dan sylw.

Prif nod y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith fod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Dros amser fe fydd pwerau newydd i osod a gorfodi safonau ar sefydliadau gan gynnwys Awdurdodau Lleol yn dod i rym trwy is-ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd y Comisiynydd yn parhau i arolygu cynlluniau iaith statudol trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

Un o flaenoriaethau'r Comisiynydd yw craffu ar ddatblygiadau polisi o ran y Gymraeg. Felly, prif rôl y Comisiynydd yw darparu sylwadau yn unol â'r cylch gorchwyl hwn gan weithredu fel eiriolwr annibynnol ar ran siaradwyr Cymraeg yng Nghymru y gallai'r ymgynghoriad hwn effeithio arnynt. Mae'r ymagwedd hon yn cael ei harddel er mwyn osgoi unrhyw gyfaddawd posibl ar swyddogaethau'r Comisiynydd ym maes rheoleiddio, a phe byddai'r Comisiynydd yn dymuno adolygu'n ffurfiol berfformiad cyrff unigol neu Lywodraeth Cymru yn unol â darpariaethau'r Mesur.

Gan droi at yr ymgynghoriad dan sylw, nid yw'n eglur pam nad oes unrhyw gyfeiriad at y Gymraeg yn y ddogfen ag eithrio un cyfeiriad wrth drafod sgiliau. Mae *'iaith fyw: iaith byw'* (Strategaeth y Gymraeg 2012-17) yn nodi mai gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw bod y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru. Fel un o ddulliau gweithredu'r Llywodraeth er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon fe nodwyd y canlynol:

'Bydd Llywodraeth Cymru yn prif ffrydio'r iaith ymhellach i waith datblygu gwasanaethau a datblygu polisi, gan sicrhau ar yr un pryd fod Gweinidogion a swyddogion yn ystyried y cysylltiadau rhwng eu portffolios nhw a'r iaith. I'r perwyl hwn o dan broses polisi Llywodraeth Cymru, mae gofyn asesu effaith polisiau a gwasanaethau newydd ar y Gymraeg, gan gynnwys gweithgareddau polisi strategol' (tud 21)

Yn Adran 3.2 y *'fframwaith adfywio newydd'* gwelwn restr o'r rhaglenni cyfredol seiliedig ar ardaloedd sydd â goblygiadau o ran adfywio. Rydym o'r farn bod yr iaith Gymraeg yn berthnasol i bob pwynt bwled ar y rhestr. Gofynnwn i chi ystyried yn ofalus wrth gynllunio tuag at ddyfodol y rhaglenni a nodwyd. Dyma grynodedb o'n sylwadau:

- *Cymunedau yn Gyntaf* - wrth i'r clystyrau newydd gael eu cytuno bydd angen ystyried sut fyddant yn cydblethu a'r cymunedau Cymraeg eu hiaith yng Nghymru lle mae'r Gymraeg dan fygythiad fel iaith draddodiadol yr ardal. Boed ydynt yn cydblethu neu beidio bydd angen sicrhau fod yr iaith Gymraeg yn cael ei ystyried yn unol â chynlluniau iaith berthnasol y partneriaid ac yna yn unol â'r safonau mewn perthynas â'r Gymraeg, pan ddônt yn gyfraith.
- *Y Cronfeydd Strwythurol* - mae dogfen cyngor y Comisiynydd ar Grantiau, benthyciadau a nawdd yn nodi'r angen i sicrhau ystyriaeth i'r effaith ar y Gymraeg wrth roi grantiau, a sicrhau defnydd priodol ohoni mewn unrhyw weithgareddau a ariennir. Bydd angen i WEFO sicrhau ystyriaeth lawn i'r Gymraeg wrth gytuno ar y prosiectau newydd.
- *Cymunedau Cynaliadwy a Chryf* - mae Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru yn cynnwys 6 maes strategol. Maes strategol 3 yw *'Y Gymuned'*. Mae'r ymrwymadau a wnaethpwyd yn y maes strategol hwn yn plethu â'r hyn a nodwyd dan y fwled *'gymunedau cynaliadwy a chryf'*. Mae'r cynllun peilot yn ardal Aman Tawe i hybu'r Gymraeg yn hynod o berthnasol.

Y Cynllun Datblygu Gwledig - er bod y niferoedd mwyaf o siaradwyr Cymraeg yn byw yn ein dinasoedd, mae'r cymunedau lle mae dros 70 y cant o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg yn bennaf yn ardaloedd gwledig. Hoffwn bwysleisio'r pwysigrwydd o sicrhau fod unrhyw gynlluniau datblygu gwledig yn adlewyrchu'r egwyddorion a nodwyd yn 'Iaith fyw, iaith byw'

Dechrau'n Deg - credwn fod cynllun 'Twf' Llywodraeth Cymru sydd â'r nod o annog rhieni i gyflwyno'r Gymraeg o'r crud i'w phlant yn berthnasol i'r cynllun Dechrau'n Deg. Anogwn i chi ystyried amcanion y prosiect hwn os na wnaethpwyd yn barod.

Adfywio a arweinir gan dai – mae darparu rhagor o dai newydd yn gallu cael effeithiau cymhleth ar gymunedau. Gall gyfrannu tuag at les cymunedol o'i reoli'n ofalus, ond gall datblygu anghymesur fod yn niweidiol i gynaliadwyedd cymunedau ac i gymunedau Cymraeg yn benodol. Mae'r Llywodraeth yn y broses o ddiwygio Nodyn Cyngor Technegol 20 ar hyn o bryd gyda'r bwriad o ddarparu canllawiau mwy pendant i awdurdodau lleol ynghylch sut dylid ystyried y Gymraeg wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol.

Nid yw'n eglur a yw'r Gymraeg yn rhan o'r canlyniadau arfaethedig yn adran 4.3 ai peidio. Mae'r Gymraeg yn rhan o'r wead cymdeithasol yng Nghymru ac yn sicr byddai'n ystyriaeth ddilys mewn nifer fawr o ardaloedd wrth fynd ati i ddatblygu cymunedau ffyniannus; cymunedau sy'n dysgu; a chymunedau iachach.

Yn Adran 5 rydych yn nodi'r egwyddorion allweddol ar gyfer eich gwaith, sef '*Partneriaeth, Strategaeth a Chynaliadwyedd*'. Nodwn â siom nad oes unrhyw gyfeiriad at Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru yn yr adran hon. Yn 5.1 caiff materion megis cydraddoldeb a chynaliadwyedd ystyriaeth o dan "egwyddorion allweddol". Unwaith eto mae'r Gymraeg yn absennol a chredwn fod hynny'n anghyson â gweledigaeth ehangach y Llywodraeth. Er enghraifft, mae dogfen "Cydamcanu – Cydymdrechu" y Llywodraeth sy'n rhoi cyngor ar gynllunio cymunedol yn cyfeirio at y Gymraeg (yn ogystal â chydraddoldeb a chynaliadwyedd) fel egwyddor sy'n sail i waith cynllunio integredig


Mae Adran 6 yn cynnwys cyfeiriadau at y sector preifat a'r trydydd sector. Mae '*Iaith fyw, iaith byw*' yn cynnwys cyfeiriad clir at bwysigrwydd y sectorau hyn wrth annog ffyniant yn y Gymraeg ym mhob cwr o fywyd yng Nghymru. Felly anogwn i chi ystyried yr ymrwymadau a wnaethpwyd yn eich strategaeth ar gyfer y Gymraeg.

Nodwyd manteision cymunedol caffael yn Adran 6. Mae tîm Gwerth Cymru eisoes wedi croesawu'r canllawiau ar gaffael a chontractio a gynhyrchwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn cyhoeddi cod ymarfer ar osod contractau gwasanaethau cyhoeddus fydd i'w gyflwyno ar yr un pryd a'r Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg.

Yn olaf, credwn fod canlyniadau cychwynnol Cyfrifiad 2011 a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn amlygu'r angen i ystyried y Gymraeg ym mholisiau adfywio, economi a thai. Mae'n ymddangos i ni o'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori nad oes fawr ddim ystyriaeth wedi ei roi i'r Gymraeg yn y fframwaith adfywio arfaethedig hyd yma. Mae gennym amheuan mawr am y cyswllt sydd rhwng y fframwaith fel mae'n sefyll a strategaeth iaith y Llywodraeth a'r weledigaeth yn ehangach.

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad. Byddwn yn croesawu'r cyfle i drafod fy sylwadau ymhellach.

Yn gywir



Meri Huws

Comisiynydd y Gymraeg

